



Gwerthuso Doethineb Gwledig Dysgu disgwyl yr annisgwyl Rhagfyr 2021




Prosiect pum mlynedd a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol oedd Doethineb Gwledig, a'i nod oedd archwilio effaith gweithgareddau cymunedol dan arweiniad pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a'r Alban.

Fel rhan o uchelgeisiau'r prosiect, mae partneriaid Doethineb Gwledig – sef Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r National Development Team for Inclusion (NDTi) – yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn galluogi pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig eraill i elwa arnynt.

Dyma'r pumed adroddiad gwerthuso, a'r olaf, ar gyfer Cymru, ac mae'n rhannu gwersi a myfyrdodau gan bawb a fu'n cefnogi ac yn gweithio gyda chymunedau gwledig Coed-llai a Phontblyddyn, Aberdaugleddau, Penrhyn Dale, a Threffynnon.

Gwersi Allweddol a Ddysgwyd

Y gwersi allweddol a ddeilliodd o flwyddyn pump:



Cynllun y Prosiect

Prosiect hirdymor oedd Doethineb Gwledig ar ffurf siwrnai tri cham gyda chymunedau ledled Cymru a'r Alban rhwng 2017-2022. Yng Nghymru, roedd hyn yn cynnwys:



Cam Un: 2017 – 2019 Gweithio gyda dwy ardal leol; Coed-llai ac Aberdaugleddau, a chynnal sgysiau gyda phobl hŷn mewn cymunedau gwledig eraill. Bwydo'r gwersi a ddysgwyd i ddatblygiadau polisi ac ymarfer ledled Cymru.



Cam Dau: 2019 – 2021 Gweithio gyda dwy ardal ychwanegol; Penrhyn Dale a Threffynon, a bwydo'r canfyddiadau i ddatblygiadau polisi ac ymarfer ledled Cymru.



Cam Tri: 2020 – 2022 Parhau i gefnogi'r holl ardaloedd gwledig a gymerodd ran yn y prosiect a'r cyfraniadau a wnaed at ddatblygu polisiâu lleol a chenedlaethol. Rhanu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn tynnu sylw at y materion sy'n wynebu pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig.

Effeithiodd y pandemig COVID-19 ar y gwaith y bu modd ei wneud yn ystod Camau Dau a Thri; ond roedd natur organig cynllun Doethineb Gwledig yn golygu y gellid parhau i gymryd camau tuag at wireddu canlyniadau'r prosiect, sef lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yng nghymunedau gwledig Cymru ar adeg pan oedd hynny'n bwysicach nag erioed.

Canlyniadau

Mewn ymateb i effaith COVID-19, cydgrëwyd canlyniadau prosiect a chanlyniadau gwerthuso newydd gan Outside the Box, Volunteering Matters Cymru, NDTi, aelodau cymunedau a rhanddeiliaid yn gynnwys ym mlwyddyn pump trwy gyfrwng cyfres o sgysiau ac arolygon ar-lein.

Llwyddodd Doethineb Gwledig i addasu i Covid, gan gadw mewn cysylltiad ag aelodau allweddol o'r gymuned er mwyn cynnal presenoldeb cymunedol bach... Ond credaf fod angen ystyried y cynllun adfer. Mae rhai cymunedau a grwpiau cymunedol wedi chwalu'n llwyr am sawl rheswm, ac mae pobl yn teimlo'n bryderus ynglŷn â mentro allan eto.
(Un o ymatebwyr yr arolwg)

Y Canlyniadau Gwreiddiol

1. Mae mwy o bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn cael llais ac yn arwain newid yn eu cymunedau lleol.
2. Mae mwy o bobl hŷn yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen, ac sy'n gweithio iddynt hwy, trwy gyfrwng amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymunedol.
3. Mae polisïau Cymru a'r Alban yn cynorthwyo pobl hŷn i fyw yn y cymunedau gwledig sy'n gyfarwydd iddynt, ac yn annog yr hyn y gall pobl hŷn ei gyfrannu at eu cymunedau.
4. Mae profiad pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, a phrofiad eu cymunedau, yn cyfrannu at dwf cymunedau ledled y DU – sef cymunedau sy'n mawrbriso, yn cynnwys ac yn cefnogi pobl hŷn.

Canlyniadau Ychwanegol

5. Caiff y cysylltiadau a'r rhwydweithiau cymorth a grëwyd ar draws y cenedlaethau mewn cymunedau gwledig yn ystod y pandemig COVID-19 eu cefnogi, er mwyn iddynt barhau wedi'r pandemig.
6. Gwrandewir ar leisiau pobl hŷn a chaiff eu lleisiau eu mawrbriso yn y gwaith adfer a wneir mewn ardaloedd gwledig i ailadeiladu cymunedau, gwasanaethau a seilwaith. Yn cynnwys yr hyn y dylid ei adfer, a sut y dylid ei adfer, mewn cymunedau gwledig ar ôl y pandemig.
7. Caiff pobl hŷn mewn cymunedau gwledig eu cynorthwyo i ailgysylltu ag eraill yn eu hardal leol mewn ffordd sy'n teimlo'n ddiogel.

Lleoliadau Cymru

Cam Un: 2017 – 2019



Coed-llai a Phontblyddyn – dau bentref gwledig bach yn Sir y Fflint, yn swatio rhwng Wreccsam, y dref fwyaf yng Ngogledd Cymru, a thref farchnad lai yr Wyddgrug.

Aberdaugleddau – mae gan Aberdaugleddau a'r ardal oddi amgylch boblogaeth o oddeutu 13,000. Mae'r dref yn ddigyswllt i raddau helaeth; mae wedi'i lleoli 100 milltir i'r gorllewin o Gaerdydd mewn sir wledig a chanddi fawr ddim gwasanaethau na chysylltiadau cludiant. Mae dirywiad y diwydiant pysgota a'r stryd fawr yng nghanol y dref ymhlith nifer o newidiadau y mae trigolion yr ardal wedi cael anhawster i addasu iddynt.

Cam Dau: 2019 – 2021



Penrhyn Dale – yn cynnwys cymunedau pentref Dale, Marloes a Llanismel. Mae'r Penrhyn yn fwy na 10 milltir o Hwlfordd ac Aberdaugleddau. Mae nifer o drigolion y Penrhyn yn teithio i Aberdaugleddau i fynd i'r feddygfa neu i'r siopau, tra mae angen teithio i Hwlfordd ar gyfer gwasanaethau eraill.

Treffynnon – tref farchnad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn Sir y Fflint. Caiff y dref ei hollti'n bedair o brif ardaloedd a cheir nifer o bentrefi bach o'i hamgylch. Mae poblogaeth y dref a'r pentrefi hyn gyda'i gilydd oddeutu 8,000.

“Mae COVID wedi ein dysgu i ddisgwyl yr annisgwyl...” (Gweithiwr Datblygu)

Ni ddisgwylid i'r Gweithwyr Datblygu yng Nghymru fod yn eu swyddi yn ystod blwyddyn pump Doethineb Gwledig. Y disgwyl oedd y byddai eu rolau'n dod i ben ar ddiwedd blwyddyn pedwar (Ionawr 2021); ond oherwydd effaith COVID-19 a'r hyblygrwydd yng nghyllid Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, bu modd iddynt aros yn eu swyddi ac ymgysylltu â'r prosiect drwy gydol blwyddyn pump. O ganlyniad, mae'r holl weithgarwch a nodir yng ngweddill yr adroddiad hwn yn mynd y tu hwnt i'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol, a dylid ei ystyried yn un o gyflawniadau pwysig Doethineb Gwledig a thîm Volunteering Matters Cymru.

Drwy gydol blwyddyn pump, mae'r Gweithwyr Datblygu wedi cadw mewn cysylltiad â'r pedair cymuned a oedd yn rhan o Doethineb Gwledig yng Nghymru trwy gyfrwng Zoom, galwadau ffôn ac e-byst. Yn Sir Benfro, cadwyd mewn cysylltiad yn bennaf trwy lunio a dosbarthu 'Milford What's On' a thrwy ddefnyddio rhestr ddosbarthu'r cyhoeddiad i rannu gwybodaeth ddefnyddiol, canllawiau'r llywodraeth a chynngor iechyd i drigolion lleol. Yn Sir y Fflint, cysylltwyd â'r trigolion mewn modd tebyg trwy ddosbarthu'r Bwletin Dyddiol, lle rhoddwyd y diweddaraf i drigolion lleol am yr hyn a oedd yn digwydd, a hefyd am ganllawiau diweddaraf y llywodraeth a chynngor iechyd.

Yn ogystal â chadw mewn cysylltiad, mae'r Gweithwyr wedi gallu sicrhau bod trigolion lleol ym mhob un o'r pedair cymuned wedi cael y cymorth angenrheidiol trwy helpu i gynnal y gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn a thrwy helpu gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned a barwyd ar ddechrau'r pandemig i barhau i gefnogi'r naill a'r llall. Mae'r gwaith hwn yn golygu bod pobl wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'i gilydd a chael rhywun i sgwrsio ag ef o leiaf unwaith yr wythnos, yn ogystal â chael danfon nwyddau, casglu meddyginiaethau a mynd â chŵn am dro pan fo angen. Mae darpariaeth y cymorth hwn wedi bod yn hollbwysig i nifer o bobl yng nghymunedau Doethineb Gwledig, ac mae'r Gweithwyr yn awyddus i sicrhau y bydd y cymorth hwn ar waith cyhyd ag y bydd ei angen.

Yn ychwanegol at y cysylltiadau a'r cymorth a roddwyd, prif ganolbwynt y gwaith yn Sir y Fflint yn ystod blwyddyn 5 fu'r Ardd Gymunedol yn Nhŷ Hwb Holway, Treffynnon. Fel rhan o hyn, llwyddodd y Gweithiwr Datblygu i helpu i gael grant gan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer darparu gardd â sied, tŷ gwydr, casgen ddŵr, pecynnau ar gyfer tyfu gardd lysiau a gardd löynnod, teclynnau bwydo adar a mainc. Hefyd, bydd y Grant hwn yn cael ei ddefnyddio i barhau i gefnogi'r ardd y tu hwnt i ddiwedd Doethineb Gwledig yn 2022, ac i helpu i gynnal y bont a gynigir i'r gymuned wrth ddod â chenedlaethau ynghyd trwy ddarparu cyfleoedd addysgol a chyfleoedd llesiant.

Yn Sir Benfro, mae'r Gweithiwr Datblygu wedi treulio rhan helaeth o flwyddyn pump yn datblygu ei gysylltiadau ehangach gyda chymunedau, darparwyr, arweinwyr a gwasanaethau. Crëwyd un cysylltiad o'r fath gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda trwy gyfrwng sgwrs ynglŷn â sut y gallai Doethineb Gwledig/Volunteering Matters Cymru weithio gyda'r Bwrdd. Arweiniodd hyn at greu partneriaeth newydd, gyda Volunteering Matters Cymru yn ymuno â phartneriaeth PIVOT. Ystyr PIVOT yw 'Pembrokeshire Intermediate Voluntary Organisations Team' (Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro), ac mae'n cynnig cymorth cymunedol gwirfoddol er mwyn helpu i atal derbyniadau dianghenraid i'r ysbyty neu gynnig cymorth ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Dyma bartneriaeth rhwng y Groes Goch Brydeinig, Cymdeithas Mudiadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro (PACTO), y Gwasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol, Gofal a Thrwsio, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), a bellach Volunteering Matters Cymru.

Ni fyddai'r bartneriaeth hon wedi bod yn bosibl heb Doethineb Gwledig a bydd yn un o gymynroddion y prosiect yn Sir Benfro, gan helpu i sicrhau y bydd modd i bobl hŷn barhau i fyw yn y cymunedau gwledig sy'n gyfarwydd iddynt.

Mae'r datblygiadau hyn ledled Cymru, ynghyd â'r perthnasoedd mwyfwy cryf gyda thîm Doethineb Gwledig yr Alban, wedi arwain at greu cyfres o 'Sbardunau Sgyrsiau' ar-lein i rannu gwersi a ddysgwyd. Yn ystod pob sgwrs ymdriniwyd â phwnc gwahanol a oedd o ddiddordeb i aelodau'r cymunedau yn y ddwy wlad, yn cynnwys o Gymru:

- Men2Men, grŵp cymdeithasol ac iechyd meddwl newydd yn Sir Benfro, lle caiff syniadau eu rhannu gyda Men's Shed o Dde Swydd Lanark;
- Helena Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn trafod materion polisi gwledig yn ymwneud â phobl hŷn;
- Manylion partneriaeth PIVOT (gweler y manylion uchod)

Bu'r 'Sbardunau Sgyrsiau' hyn yn llwyddiannus iawn, a mynychodd mwy na 30 o bobl o sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol y sgwrs ynglŷn â phartneriaeth PIVOT. Oherwydd llwyddiant y sgysiau hyn yn 2021, mae Gweithwyr Datblygu yng Nghymru a'r Alban yn bwriadu cynnal cyfres newydd yn 2022 er mwyn parhau â'r sgysiau sydd eisoes ar y gweill a chychwyn rhai newydd.

Y cynnydd tuag at y canlyniadau

Fel yr awgryma'r drafodaeth yn yr adran flaenorol, drwy gydol blwyddyn pump bu Gweithwyr Datblygu Cymru yn gweithio tuag at wireddu'r canlyniadau gwerthuso (a restrir ar dudalen 2).

Mae'r gwaith parhaus a wnaed i sicrhau bod modd i bobl gadw mewn cysylltiad â'u cymunedau trwy ddsbarthu gwybodaeth, trwy gyfrwng y gwasanaeth cyfeillio, trwy gyfrwng y cynllun paru gwirfoddol, a hefyd yn sgil twf yr Ardd Gymunedol yn Nhreffynnon, yn gynnydd tuag at amcan dau; 'Mae mwy o bobl hŷn yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen, ac sy'n gweithio iddynt hwy, trwy gyfrwng amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymunedol', ac amcan pump; 'Caiff y cysylltiadau a'r rhwydweithiau cymorth a grëwyd ar draws y cenedlaethau mewn cymunedau gwledig yn ystod y pandemig COVID-19 eu cefnogi, er mwyn iddynt barhau wedi'r pandemig'.

Gyda'r gwaith a wnaed yn Sir Benfro a chynnydd partneriaeth PIVOT tuag at amcan dau; 'Mae mwy o bobl hŷn yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen, ac sy'n gweithio iddynt hwy, trwy gyfrwng amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymunedol'; ac amcan tri; 'Mae polisiâu Cymru a'r Alban yn cynorthwyo pobl hŷn i fyw yn y cymunedau gwledig sy'n gyfarwydd iddynt, ac yn annog yr hyn y gall pobl hŷn ei gyfrannu at eu cymunedau'.

Mae datblygu 'Sbardunau Sgyrsiau' ar-lein ar gyfer aelodau Doethineb Gwledig yng Nghymru a'r Alban a phartion â budd yn gynnydd tuag at amcan pedwar; 'Mae profiad pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, a phrofiad eu cymunedau, yn cyfrannu at dwf cymunedau ledled y DU – sef cymunedau sy'n mawrbriso, yn cynnwys ac yn cefnogi pobl hŷn', ac amcan chwech; 'Gwrandewir ar leisiau pobl hŷn a chaiff eu lleisiau eu mawrbriso yn y gwaith adfer a wneir mewn ardaloedd gwledig i ailadeiladu cymunedau, gwasanaethau a seilwaith. Yn cynnwys yr hyn y dylid ei adfer, a sut y dylid ei adfer, mewn cymunedau gwledig ar ôl y pandemig'.

Mae'r cynnydd hwn tuag at ganlyniadau mewn cyfnod na welwyd mo'i debyg o'r blaen yn hanes prosiect datblygu cymunedol fel Doethineb Gwledig yn rhywbeth y dylid ymfalchio'n fawr ynddo, ac ni ddylid ystyried y cynnydd cyfyngedig a welwyd yn achos dau o'r canlyniadau yn fethiant mewn unrhyw ffordd.

Dyma'r ddau ganlyniad na chyfrannodd y gwaith atynt yn ystod y pum mlynedd: amcan un 'Mae mwy o bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn cael llais ac yn arwain newid yn eu cymunedau lleol', ac amcan saith 'Caiff pobl hŷn mewn cymunedau gwledig eu cynorthwyo i ailgysylltu ag eraill yn eu hardal leol mewn ffordd sy'n teimlo'n ddiogel'.

Llwyddodd y gwaith a wnaed yn ystod blynyddoedd un i dri, cyn y pandemig COVID-19, i wneud cynnydd tuag at amcan un, gyda'r Gweithwyr ac aelodau'r cymunedau yn cydnabod bod pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn cael eu gweld a'u clywed mewn modd mwy cadarnhaol na chyn i Doethineb Gwledig ddechrau gweithio yno.

Mae Doethineb Gwledig wedi bod yn gymorth mawr i bobl ac mae wedi rhoi hyder iddyn nhw gael llais a dylanwadu ar newid cadarnhaol.
(Aelod o'r Gymuned)

Cyn COVID, roedd pobl yn dechrau gafael yn yr awenau gyda rhywfaint o arweiniad, ond roedden nhw'n dechrau newid.
(Gweithiwr Datblygu)

Effeithiodd y pandemig, ynghyd â'r newid yn ffocws Doethineb Gwledig a'i Weithwyr o ran cadw pawb yn ddiogel, cadw pawb mewn cysylltiad a chadw pawb yn iach, ar y gallu i barhau i wneud mwy o waith tuag at y canlyniad hwn. Cred y Gweithwyr yng Nghymru y byddai llais pobl hŷn a'u gallu i ddylanwadu ar newid wedi mynd o nerth i nerth pe na bai'r pandemig wedi digwydd.

Heblaw am y pandemig, pwy a wŷr ble bydden ni. Mae hi'n anodd dweud, oherwydd fydden ni ddim wedi cael pum mlynedd, ond mae'n bosibl y gallen ni fod wedi gwneud rhagor yn y pedair blynedd, efallai y byddai ein cymunedau wedi mynd gam ymhellach ac efallai y byddai pobl wedi bod yn fwy hyderus.
(Gweithiwr Datblygu)

Mae gweithio tuag at ganlyniad saith wedi bod yn anos i'r cymunedau Cymreig a oedd yn rhan o Doethineb Gwledig gan fod y sefyllfa mewn perthynas â COVID-19 yn newid yn barhaus, a thasg anodd fu ailgysylltu, hyd yn oed mewn modd diogel.

Mae hi'n anodd gwybod beth yw'r peth gorau i'w wneud. Cyn gynted ag yr ydyn ni'n meddwl gwneud pethau, mae'r rheolau'n newid, mae'r cyfraddau'n cynyddu neu mae amrywiolyn newydd yn dod i'r amlwg. Dyw pobl ddim yn teimlo'n ddiogel. Mewn sawl ffordd rydyn ni wedi rhoi'r gorau i feddwl pryd fyddwn ni'n gwneud pethau mewn ystafell unwaith eto, mae hynny'n haws. Mae rhai grwpiau, fel grwpiau gwau, wedi ailffurfio gan fod pobl yn dymuno cymryd rhan ynddyn nhw, ond prin iawn yw enghreifftiau o'r fath.
(Gweithiwr Datblygu)

Myfyrdodau

I'r Gweithwyr a fu'n rhan o Doethineb Gwledig, nid gweithio tuag at ganlyniadau ffurfiol y prosiect neu'r gwerthusiad oedd yr unig beth pwysig – mae'r rhaglen wedi bod yn rhan o'u bywydau ers mwy na phum mlynedd, ac mae'r cymunedau y gweithiant gyda hwy yn agos at y cymunedau y maent yn byw ynddynt. O'r herwydd, mae'r prosiect yn golygu llawer iawn iddynt, ac maent yn teimlo'r llwyddiannau a'r heriau yn ddwfn, ar lefel broffesiynol a phersonol.

Gallaf ddweud â'm llaw ar fy nghalon mai dyma'r swydd orau erioed. Mae wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd cael bod yn rhan o gymunedau pobl a chael fy nghrosawu iddyn nhw. Profiad gwerth chweil yw gweld syniadau ar waith ymhen amser maith ar ôl inni adael y Gymuned. Rydw i'n mynd i weld eisiau'r rôl yn fawr.
(Gweithiwr Datblygu)

Mae wedi golygu llawer iawn imi – ac mae wedi bod yn wych, ond yn galed. Fe fydda i'n troi'n emosiynol nawr...ond methu â gwneud y gwaith roedden ni eisiau ei wneud, methu ymwreiddio yng nghymunedau Cam 2 fel roedden ni wedi'i ragweld, ac rydw i'n credu y bydden ni wedi gwneud mwy. Rydw i'n credu y bydden ni wedi cyrraedd cymunedau Cam 3 erbyn hyn, heb COVID. Anodd yw meddwl am hynny. (Gweithiwr Datblygu)

Mae'r ail ddyfyniad yn tynnu sylw at yr effaith a gafodd COVID-19 ar y Gweithwyr Datblygu, eu gwaith, a'r prosiect yn gyffredinol. Y pandemig fu'r her fwyaf i Doethineb Gwledig ei hwynebu, a doedd neb wedi'i rhagweld – mae'r pandemig wedi gadael gwaddol emosiynol a phroffesiynol yn achos pawb a fu'n gysylltiedig â'r prosiect, a bydd yn parhau i wneud hynny am amser maith. Eto i gyd, er bod y pandemig wedi effeithio'n negyddol mewn sawl ffordd ar Doethineb Gwledig a'r gwaith yr oedd y prosiect yn gobeithio'i gyflawni, mae wedi cael effaith gadarnhaol hefyd.

Rydyn ni wedi dysgu ffyrdd newydd o weithio, ac mae hyn yn golygu bod gennym ni gysylltiad gwell.... Pam oedden ni'n arfer teithio am oriau, gan arwain at gost ac effeithio ar yr amgylchedd? Dydyn ni ddim yn meddwl ddwywaith bellach ynglŷn â chyfarfod trwy Zoom a chysylltu â phobl o bob cwr o'r wlad... mae gwell cysylltiad yn golygu ein bod wedi cael cymorth, mae'r tîm wedi bod yn wirioneddol wych...mae wedi fy helpu gyda pha mor anodd fu'r sefyllfa.
(Gweithiwr Datblygu)

Mae COVID wedi ein dysgu i ddisgwyl yr annisgwyl, i beidio â dychryn pan fydd popeth cyfarwydd yn newid mewn chwinciad. Mae wedi bod yn brofiad anesmwyth, ond mae wedi fy nysgu i fod yn greadigol a pheidio â bod ofn rhoi cynnig ar bethau... Yn amlwg, bu modd inni ddysgu hyn gan fod Doethineb Gwledig wedi rhoi cyfle inni, gan fod y cyllid wedi rhoi cyfle inni, ond roedd yn golygu mynd i'r afael â phethau yn hytrach na rhoi'r ffidil yn y to. (Gweithiwr Datblygu)

Mae'r effaith gadarnhaol a gafodd COVID-19 ar Doethineb Gwledig wedi arwain at gyflawni mwy o waith yng Nghymru nag y bwriadwyd ei wneud yn wreiddiol, a hefyd arweiniodd at gymunedau a Gweithwyr a oedd â chysylltiad gwell ar draws y gwledydd cartref. Yn ei dro, arweiniodd hyn at rannu'r gwersi a ddysgwyd ynglŷn â'r pethau sy'n gweithio, o fewn y prosiect ac yn ehangach, mewn ffyrdd nas rhagwelwyd yn wreiddiol. Ac er nad yw'r gwersi hyn o angenrheidrwydd yn rhai roeddem yn disgwyl eu dysgu ar ddechrau'r prosiect yn 2017, dyna a weithiodd yn 2021, a'r gobaith yw y bydd y gwersi hyn o fudd i brosiectau datblygu cymunedol eraill yn awr ac yn y dyfodol.

Crynodeb

Mae'r gwaith a wnaed yng Nghymru yn ystod blwyddyn pump Doethineb Gwledig wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn y bwriadwyd ei wneud yn wreiddiol. Yn sgil cyllid hyblyg y prosiect, bu modd i'r Gweithwyr Datblygu ymgysylltu o ddifrif â'u cymunedau ac â chwmpas ehangach Doethineb Gwledig drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith a wnaed ganddynt wedi esgor ar dystiolaeth yn ymwneud â'r canlyniadau gwerthuso trwy gynorthwyo pobl hŷn i aros yn eu cymunedau gwledig os mai dyna oedd eu dymuniad, trwy wneud i bobl hŷn deimlo bod y gymuned yn gefn iddynt mewn ffyrdd a oedd yn gweithio iddynt hwy, trwy sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed wrth ddatblygu polisiau (yn enwedig o ran adfer cymunedau gwledig yng ngoleuni COVID-19), a thrwy alluogi pobl hŷn i greu cysylltiadau â phobl eraill â diddordebau tebyg o fewn eu cymunedau ac o fewn ardaloedd Doethineb Gwledig.

Mae myfyrdodau'r Gweithwyr Datblygu wedi tynnu sylw at y modd y mae gweithio trwy bandemig wedi effeithio ar y gwaith roeddynt yn gobeithio'i gyflawni, a phwysleisiwyd hefyd yr effaith gadarnhaol a welwyd yn sgil wynebu cyfnod mor andwyol mewn hanes. Gwelwyd bod y newidiadau a roddwyd ar waith ym mlwyddyn pedwar – sef gweithio o bell a defnyddio technoleg fel Zoom i gysylltu gyda'i gilydd, gyda'u cydweithwyr yn yr Alban, gydag aelodau'r cymunedau a chyda rhanddeiliaid – wedi parhau drwy gydol blwyddyn pump, ac arweiniodd at greu cysylltiadau gwell o fewn y prosiect a pheri i'r Gweithwyr deimlo bod help wrth law iddynt.

Gan fod cyd-destun y prosiect wedi newid yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a hefyd ym mlwyddyn pedwar, bu modd i'r Gweithwyr ddod yn fwy hyblyg, creadigol a di-ofn o ran rhoi cynnig ar bethau na fyddent wedi'u gwneud heb y pandemig. O'r herwydd, cafodd sgysiau, cysylltiadau, cyfleoedd a chanlyniadau newydd eu sicrhau ar gyfer trigolion a chymunedau gwledig Cymru – elfennau na fyddent wedi'u gwireddu heb COVID-19, o bosibl.

Rhagor o wybodaeth

Mae Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r National Development Team for Inclusion (NDTi) yn gobeithio y bydd yr wybodaeth a rennir yma mewn perthynas â Doethineb Gwledig yn ddefnyddiol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ddogfen hon, neu ynglŷn â Doethineb Gwledig yn fwy cyffredinol, cymerwch gipolwg ar wefan y prosiect www.ruralwisdom.org

Cyswllt Gwerthuso

Dr Victoria Mason-Angelow
Ymgynghorydd Ymchwil a Gwerthuso
Victoria.Mason-Angelow@ndti.org.uk

National Development Team for Inclusion (NDTi)
www.ndti.org.uk

Adnoddau

Cewch ragor o wybodaeth ac adnoddau yma:
www.ruralwisdom.org

